**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU**
**19/04/2018**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN**
**AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Gyngh. Clare Hughes bawb i'r cyfarfod misol.

**2. YN BRESENNOL:** Y Gyngh. Clare Hughes (Caderiydd); Y Dirprwy-Gadeirydd y Gyngh. Angharad Jones; Y Gyngh. Laura Jones; Y Gyngh. Mair Jones; Y Cyngh. Gareth Owen; Y Cyngh. Alun Price-Jones; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies & Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans

**3. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
Ymddiheurodd y Cyngh. John Jones, y Cyngh. Non Jones, y Cyngh. Wil Lewis a'r Cyngh. Doug Rowbotham am eu hanallu i fynychu'r Cyfarfod.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu Evans na fu unrhyw broblemau gwrthgymdeithasol na bwrgleriaethau yn ystod y mis diwethaf.
Bu lladrad yn swyddfa *Cadw,* Pontrhydfendigaid a dygwyd y cist. Yn ogystal, bu Siop Bronant yn destun bwrgleriaeth a torrwyd mewn i nifer o garejis yn ymestyn o Aberteifi i Aberystwyth gan ddwyn y bocsys arian. Arestiwyd 4 o bobl mewn perthynas â'r trosedd.
Bu i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Dafydd Llywelyn ymweld â Neuadd Goffa Tregaron ar ddydd Iau 29ain o Fawrth 2018 a gwahoddwyd aelodau'r Cyngor Cymuned i fod yn bresennol.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Ni ddatgelwyd unrhyw ddiddordeb.

**6. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD O'R 15FED O FAWRTH 2018**
**CYNIGIWYD** (Y Gyngh. Mair Jones) **EILIWYD** (Y Gyngh. Laura Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod o'r 15fed o Fawrth 2018 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Gyngh. Clare Hughes.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Cais am Bont i gerddwyr ym Mhontrhydfendigaid**
Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gan Gyngor Sir Ceredigion, ers y cyfarfod safle o'r 9fed Chwefror 2018 rhwng Mr Igho Emeseh, CS Ceredigion a chynrychiolwyr y Cyngor Cymuned. Trafodwyd codi pont i gerddwyr ger y bont bresennol a rhyddhau tir at y diben hwn. **PENDERFYNWYD** cysylltu â Chyngor Sir Ceredigion i ofyn am ddiweddariad.

**7.2 Gwefan y Cyngor Cymuned: nawr yn ei le.**
Cynhwysir polisïau'r Cyngor Cymuned i gynnwys Rheolau Sefydlog ar y Wefan, a fydd yn gosod mewn lle canllawiau clir ar gyfranogiad y cyhoedd yng nghyfarfodydd y Cyngor Cymuned.
Nododd y *Canllawiau ar gyfer y Wefan* a gynhwysir o fewn gwefan Un Llais Cymru (U. Ll. C) y canlynol, o dan y pennawd, Cynnwys Gwefan Generig.
**OPSIWN 7:** Tudalen Fusnes Leol gyda photensial i gynhyrchu incwm os oes angen talu am y wefan a chynorthwyo cynaladwyedd parhaus.

Yn yr ymateb gan Shan Bowden, Swyddog Un Llais Cymru, dywedwyd y gellid cynnwys tudalen o fewn gwefan y Cyngor Cymuned lle gallai busnesau dalu i hysbysebu. Gallai'r cyngor cymuned osod y cyfraddau hysbysebu a byddai'n rhaid penderfynu beth yr ystyrir yn hysbysebu priodol ac y byddai'n rhaid i'r dudalen we nodi'n glir nad oedd y cyngor yn cymeradwyo'r hysbysebion a gyflwynwyd gan y Busnesau. Nid ymddengys bod tudalennau o'r fath yn arfer cyffredin ymhlith cynghorau lleol. **Nodwyd er gwybodaeth.**

**7.3 Cais i osod palmant ger y Lloches-Bws, Penrhiw, Ffair Rhos**
Gwnaeth y Cadeirydd y Gyngh. Clare Hughes gyfeirio Mr Igho Emeseh, i'r cais i osod palmant ger y Lloches Bws ardal Penrhiw, yn ystod y cyfarfod safle yn ymwneud â phrif bont y Pentref o'r 9fed Chwefror 2018. Cytunodd perchnogion Penrhiw i roi fel rhodd, rhan o dir at y diben hwn; bydd angen symud polyn. *Disgwylir datblygiadau pellach.*

**7.4 Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen: Arolwg Rospa 2017** Cynhaliodd ROSPA arolwg parc yn ystod mis Mehefin am ffi o £66.50. Dosbarthwyd yr Adroddiad ymysg aelodau. Mae'r Cyngor Cymuned yn mynd i afael â'r materion a godwyd yn yr Adroddiad. Dywedwyd bod angen sylw ar y cylchfan. Defnyddir dŵr poeth i lanhau'r matiau. Mae Archwiliad Chwarae Rospa wedi'i drefnu ar gyfer haf 2018.

**7.5 Casgliad Sbwriel O fewn y Pentref**
Mae'r Ysgol a'r Ysgol Feithrin yn trefnu casgliad sbwriel. Ystyriodd y Cyngor Cymuned ddyddiadau i gynnal Casgliad Sbwriel (ar ddiwedd Ebrill 2018). Roedd y Banc Potel yn aml yn llawn i'r ymylon; teimlwyd y dylid hysbysu'r Cwmni a oedd yn gwasanaethu'r Banc yn rheolaidd.

**7.6 Cŵn yn Baeddu:** penderfynodd y Cyngor Cymuned i gymryd ymagwedd ragweithiol tuag at y broblem barhaus o gŵn yn baeddu yn y Pentref. Archebwyd chwistrellu lliw i'w defnyddio.

**Perchnogaeth Cŵn Anghyfrifol CSC:** yn gofyn am farn mewn perthynas â'r awgrymiad i gyflwyno trefniant "trwyddedu" pan fyddai perchnogion cŵn yn talu ffî cofrestru blynyddol ar gyfer eu hanifail anwes. Cyfeirir y cyllid at awdurdodau lleol i gwrdd â chost phroblemau eu hardal a darparu cyfleoedd i ymgysylltu â grwpiau cymunedol i fynd i'r afael ag ymddygiad anghyfrifol. *Nid oedd aelodau o blaid yr awgrymiad.*

**7.7 Cinio Blynyddol:** trefnwyd ar gyfer Gwener, 18fed o Fai 2018 fel y dyddiad i gynnal y Cinio Blynyddol yn y Llew Coch, Pontrhydfendigaid. Penderfynwyd gofyn am y Ddewislen i'w dosbarthu ymysg aelodau.

**7.8 Glanhau a Pheintio (llythyrau aur):** Cofeb Ryfel, Ponthrhydfendigiad: Ystyriwyd y Grant Cofeb Ryfel. Bydd angen 3 dyfynbris ar gyfer y gwaith adnewyddu. Y Gyngh. Laura Jones i gysylltu â Mr James am un dyfynbris.

**7.9 Plac Jiwbilî Diemwnt Ei Mawrhydi Y Frenhines Elisabeth 11**: mae trefniadau ar y gweill i arddangos plac gerllaw'r goeden Dderwen.

**7.10 Y Fenter Ddi-blastig:** Sefydlir Grŵp Llywio yn y Pentref i gynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Cymuned er mwyn tanysgrifio i'r Fenter Ddi-blastig. Darperir hyfforddiant dan law Mr Alan Cookson, er enghraifft, anelu i waredu â phlastig defnydd sengl i gynnwys gwellt sugno a dewis opsiynau cynaliadwy; cynnal digwyddiadau codi sbwriel; gwella effaith niweidiol plastig ar fywyd morol i gynnwys afonydd lleol.

**8. GOHEBIAETH**

**8.1 Un Llais Cymru (U.Ll.C):** yn ceisio cynrychiolwyr yng Nghyfarfodydd bob 3 mis ULlC. (Cynrychiolwyr presennol: Cadeirydd, y Gyngh. Clare Hughes a'r Cynghorydd Doug Rowbotham).

8.2 **Un Llais Cymru:** Hyfforddiant yn Rhedeg: Modiwl 17 - Gwneud Ceisiadau Grant Effeithiol - Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth, Dydd Mercher 18.04.18: er gwybodaeth.

8.3 **GIG: Bwrdd Iechyd Prifysgol: Hywel Dda:** Gwahoddiad i Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid: "Trawsnewid ein gwasanaeth iechyd: Ymgynghoriad ar wasanaethau gofal iechyd Bwrdd Iechyd Unedig Hywel Dda": Dydd Gwener 27ain Ebrill 2018 - 1.30pm-3.30pm yn Neuadd y Dref Hendy-gwyn , Hendy-gwyn.

8.4 **Mr Peter Austin: Galw am syniadau adfywio mewn chwe Tref Canolbarth Cymru:** Mae Llywodraeth Cymru (LlC) wedi cyhoeddi ei gynigion ar gyfer rhaglen newydd o fuddsoddiad adfywio i ddechrau yn 2018, y Rhaglen Buddsoddi Adfywio Targededig (Trip). Mae gan y rhaglen hon y potensial i ddod â gwerth buddsoddiad gwerth £7 miliwn i Ganolbarth Cymru dros y tair blynedd nesaf. Yng Ngheredigon bydd y rhaglen hon yn canolbwyntio ar drefi Teifi Llandysul, Llanbedr Pont Steffan a Thregaron. Penderfynwyd cysylltu â Mr Peter Austin i ofyn a fyddai'n barod i wneud Cyflwyniad i'r Cyngor Cymuned parthed perthnasedd y rhaglen i'r Ward a gynrychiolir gan Gyngor Cymuned Ystrad Fflur.

8.5 **Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

9.1 **Ysgoloriaeth y Dywysoges Sapieha dan ofalaeth Cyngor Cymuned Ystrad Fflur**: mae cyfrif ar wahân yn bodoli ar hyn o bryd ond ni dderbyniwyd llyfr siec; caiff arian ei dynnu allan o'r prif gyfrif. Penderfynwyd gwneud cais am lyfr-siec.

9.2 **Cyflog y Clerc** Ebrill 2018 £155.07.

9.3 **Cyllid a Thollau EM Ebrill** 2018 £38.76.

9.4 **Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion**
i gyflwyno'r anfonebau canlynol gerbron y Cyngor Sir.

| **EITEM** | **Y GOST- NET** | **TAW** | **CYFANSWM** |
|---|---|---|---|
| Gwisgoedd Plant | £28.49 | £4.86 | £33.35 |
| Arwyddion Diogelwch Ffyrdd | £73.97 | £14.79 | £88.76 |
| Casglwyr Sbwriel | | Heb fod yn berthnasol | £25.98 |
| Bagiau Sbwriel (Amazon) | £22.08 | £4.42 | £26.50 |
| Pyst metel – Maesglas | £110.00 | £22.00 | £132.00 |
| Hoelion a Bolltau-Tregaron | £2.08 | £0.42 | £2.50 |
| Dalwyr Bagiau Bin (Amazon) | £37.47 | £7.50 | £44.97 |
| Chwistrell | £19.91 | £3.99 | £23.90 |
| Petrol – i gasglu'r nwyddau | £16.67 | £3.34 | £20.01 |
| **CYFANSWM** | | | **£397.97** |

**9.5 Mrs Enid Hughes:** Archwilio'r Cyfrifon Neuadd Pantyfedwen £70.00

**10. CYNLLUNIO**

**10.1 Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:** Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**10.2 Cais Cynllunio: A180358:** Lleoliad: Gorwel, Pontrhydfendigaid, Ystrad Meurig. Y Bwriad: Adeiladu estyniad, newidiadau a Gwaith cysylltiedig. Ymgeisydd: B Nutbeam. Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.

**10.3 Cais Cynllunio: A180355: Lleoliad: Cefn Meurig, Ystrad Meurig, SY25 6AY. Y Bwriad: adeiladu estyniad.** Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.

**11. UNRHYW FATER ARALL**

**I ADRODD AT SYLW CYNGOR SIR CEREDIGION:**

**11.1 Manol yn peri'n broblem ger** Bron Mwyn;

**11.2 Draeniau angen sylw ger y Gofgolofn Ryfel:** &

**11.3 Manol wedi suddo: Stryd Teifi** - rhwng Penybont a Manafon.

***Daeth y cyfarfod i ben am*** **8.45pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Nos Iau 17eg o Fai May 2018 at 7pm- Cyfarfod Cyffredinol Blnyddol a'r Cyfarfod Misol i ddilyn.**

====================================================== (Signed/Date)